



Stori Malala

“Cyfyngodd y Taliban ein haddysg, ac fe fynnonnt nad oedd merched i fynd ar gyfyl yr ysgol ddim rhagor. Hon oedd adeg waethaf fy mywyd. Ond nid oeddem yn hidio dim, mi wnaethon ni barhau â'n haddysg”.



Ar 9 Hydref, 2012, saethwyd y ferch ysgol 15 mlwydd oed Malala Yousafzai yn farw gan y Taliban oherwydd iddi wneud safiad dros ei hawl i fynd i'r ysgol ym Mhacistan. Mae'r Taliban yn grŵp eithafol. Maent o'r farn na ddylai merched gael eu trin yr un fath â dynion. Peryglodd Malala ei bywyd er mwyn dweud ei dweud ar ran pob merch nad oedd yn cael mynd i'r ysgol. Erbyn heddiw, mae Malala yn symbol o obaith, gwytnwch a dewrder drwy'r byd.

Fe addawodd arweinwyr y byd addysg i bob plentyn erbyn 2015, ond mae 60 miliwn o blant ar eu colled o hyd am nad ydynt yn mynd i'r ysgol. Mynegwch eich barn o blaid stori Malala, a chefnogwch hawl bob plentyn i gael addysg.

